monmouthshire
sir fynwy

Cyngor Sir Fynwy
Neuadd y Sir, Y Rhadyr,
Brynbuga, Sir Fynwy
NP15 1GA
Monmouthshire County Council
County Hall, Y Rhadyr, Usk,
Monmouthshire
NP15 1GA

Ffôn/Tel: 01633 644 644
Gwe/Gwefan: www.monmouthshire.gov.uk
Ein Cyf/Our ref:
Eich Cyf/Your ref:

# DERBYN DISGYBLION I YSGOL UWCHRADD – MEDI 2025 GWYBODAETH I RIENI

Darllenwch y nodiadau hyn yn ofalus cyn llenwi eich ffurflen gais os gwelwch yn dda.

Fe'ch cynghorir yn gryf i ddarllen y Llyfryn Dechrau Ysgol 2025/26 gan fod hwn yn cynnwys gwybodaeth fanylach am y broses ymgeisio. Mae copi o'r llyfryn ar gael yn www.monmouthshire.gov.uk neu gellir ei anfon drwy'r post ar gais.

**Pwysig:** Sicrhewch eich bod yn cwblhau cais derbyn disgybl i ysgol er mwyn sicrhau y bydd eich plentyn yn dechrau yn yr Ysgol Uwchradd ym mis Medi 2025. **Ni fydd** eich plentyn yn gallu mynychu Ysgol Uwchradd oni bai eich bod wedi dilyn y broses ymgeisio. Gallwch wneud cais ar-lein trwy Borth Dinasyddion Sir Fynwy trwy ddilyn y ddolen hon Porth Dinesydd - Mewngofnodwch (sir Fynwy.gov.uk). Gwnewch yn siŵr bod y cais yn cael ei gwblhau cyn y dyddiad cau sef **13eg Tachwedd 2024 am 5pm** er mwyn rhoi'r siawns orau i'ch plentyn gael lle yn yr ysgol yr ydych yn ei ffafrio.

## Faint o ysgolion ddylwn i wneud cais amdanynt?

Gwahoddir rhieni ddewis hyd at dair ysgol (yn nhrefn blaenoriaeth) rhag ofn i'ch plentyn beidio â chael eu derbyn i'r ysgol a ffafrir.

Anogir rhieni / gwarcheidwaid i gynnwys mwy nag 1 dewis ar eu cais er mwyn i'r rhain gael eu hystyried. Os bydd eich dewis ysgol yn cael ei gwrthod, bydd methu â rhoi mwy nag un dewis yn golygu y bydd yr awdurdod yn gorfod dyrannu lle i'ch plentyn yn yr ysgol agosaf sydd ar gael. Os byddwch yn rhoi gwybod i ni am ddewisiadau eraill ar ôl i'r penderfyniad hwn gael ei wneud, efallai na fydd lle ar ôl yn yr ysgol(ion) eraill yr ydych wedi'u dewis.

Mae Cyngor Sir Fynwy yn gweithredu cynllun dewis cyfartal. Golyga hyn y bydd pob un o'ch dewisiadau yn cael ystyriaeth gyfartal a byddant yn cael eu blaenoriaethu ar sail meini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod. Os y bydd modd cynnig lle i'ch plentyn ar gyfer mwy nag un o'r ysgolion yr ydych wedi'u dewis, bydd lle'n cael ei gynnig yn yr ysgol sydd wedi'i nodi fel eich dewis uchaf.
Bydd angen i chi nodi os ydych chi'n ffafrio ysgol wirfoddol a gynorthwyir / ysgol annibynnol. (Bydd hefyd yn ofynnol i chi wneud cais yn uniongyrchol i ysgol wirfoddol a gynorthwyir / ysgol annibynnol)

## Pwy ddylai wneud y cais?

Rhaid i geisiadau ar gyfer derbyniad i Ysgol gael eu cwblhau gan y sawl sydd â chyfrifoldeb rhiant dros y plentyn.

**Pwysig: Mae'n rhaid i bob unigolyn sydd â chyfrifoldeb rhiant gytuno i'r cais sy'n cael ei gyflwyno. Os bydd unrhyw anghydfod rhwng y rhai sydd â chyfrifoldeb rhiant mewn perthynas â'r cais, ni fydd yr Awdurdod Lleol yn gallu bwrw ymlaen â'r cais hyd nes y bydd yr anghydfod wedi'i ddatrys.**

**Beth os ydw i eisiau gwneud cais am Ysgol sydd y tu allan i Sir Fynwy?**

Os ydych yn byw yn Sir Fynwy yna mae'n rhaid i chi barhau i wneud cais i Gyngor Sir Fynwy, hyd yn oed os nad yw eich dewis ysgol o fewn Sir Fynwy. Yna byddwn yn cysylltu â'r Awdurdod Lleol perthnasol ar eich rhan.

**Pwysig:** Yr unig eithriad i'r uchod yw os ydych yn gwneud cais am ysgol sydd o fewn Cyngor Dinas Casnewydd a Chyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen. Rhaid gwneud ceisiadau ar gyfer Ysgolion sydd o fewn Cyngor Dinas Casnewydd yn uniongyrchol i Gyngor Dinas Casnewydd a rhaid gwneud ceisiadau ar gyfer Ysgolion sydd o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen yn uniongyrchol iddynt erbyn eu dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn i'r ceisiadau gael eu hystyried. ***Rydym yn eich cynghori'n gryf i gwblhau a dychwelyd cais ar gyfer Sir Fynwy, er mwyn rhoi gwybod i ni eich bod yn ffafrio ysgolion yng Nghasnewydd neu Torfaen, a chynnwys unrhyw Ysgolion eraill (yn nhrefn dewis) yr hoffech i ni eu hystyried.***

Os dymunwch wneud cais am Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir neu Ysgol Annibynnol, rhaid i chi hefyd wneud cais yn uniongyrchol i'r Ysgolion hyn.

**Manylion cyfeiriad – beth os ydw i'n symud?**

Sicrhewch mai'r cyfeiriad a nodir ar eich ffurflen gais yw cyfeiriad cartref parhaol eich plentyn. Dyma'r cyfeiriad y bydd yr Awdurdod Lleol yn ei ddefnyddio i wneud penderfyniad ar gais eich plentyn. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cynnal gwiriadau preswylio trylwyr i ddilysu manylion y cyfeiriad a gyflwynwyd.

Bydd yn ofynnol i Rieni / Gofalwyr sydd yn y broses o symud eiddo roi gwybod i'r Awdurdod Lleol **ar yr adeg y gwneir cais** eu bod yn bwriadu symud a bydd angen iddynt gyflwyno tystiolaeth i ddilysu eu cyfeiriad newydd, er mwyn i'r cyfeiriad hwn gael ei ystyried. Tystiolaeth addas fyddai copi o gyfnewid contractau (ar gyfer pryniannau) neu gytundeb tenantiaeth hirdymor (ar gyfer trefniadau rhentu). **Mae'n rhaid** cyflwyno'r cais yn ogystal â hysbysiad o newid cyfeiriad cyn y dyddiad cau cyhoeddedig er mwyn iddo gael ei ystyried fel cais a dderbyniwyd mewn pryd. Bydd methu â hysbysu'r Awdurdod Lleol eich bod wedi symud i gyfeiriad newydd cyn y dyddiad cau cyhoeddedig yn arwain at benderfynu bod y cais yn hwyr.

**Pwysig**

Bydd angen i rieni/gofalwyr sydd yn y broses o symud, ond nad ydynt yn gallu dilysu'r symud cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sicrhau bod eu cais gorffenedig yn cael ei gyflwyno cyn y dyddiad cau cyhoeddedig, a bod y cais yn darparu gwybodaeth am y bwriad i symud. Bydd yr Awdurdod Lleol yn cysylltu â rhieni/gofalwyr er mwyn cael cadarnhad y byddwch yn bendant yn byw yn y cyfeiriad newydd. Fodd bynnag, bydd angen i rieni ddarparu tystiolaeth i'r Awdurdod Lleol sy'n cadarnhau'r newid i'w cyfeiriad **ddim hwyrach na 6 wythnos cyn** y dyddiad cynnig cyhoeddedig er mwyn i'r cyfeiriad newydd gael ei ystyried at ddibenion dyrannu lleoedd. Y dyddiad olaf y gellir cyflwyno'r dystiolaeth hon i'r awdurdod lleol i'w hystyried yw **20fed Ionawr 2025.**

***Cymerwch amser i astudio Llyfryn Dechrau Ysgol 2025/26 er mwyn cael gwybodaeth fanylach am y broses os ydych yn ystyried symud cyfeiriad.***

**Beth mae'n ei olygu os penderfynir bod fy nghais yn hwyr?**

Ymdrinnir ag unrhyw geisiadau a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau neu geisiadau sy'n parhau i fod yn anghyflawn ar y dyddiad cau o dan y trefniadau ceisiadau hwyr.
Bydd ceisiadau lle mae newid mewn amgylchiadau wedi digwydd, sy'n effeithio ar statws y cais o fewn y meini prawf gordanysgrifio, yn arwain at drin y cais fel un hwyr os bydd y newidiadau hyn yn cael eu dwyn i sylw'r Awdurdod ar ôl y dyddiad cau.

Sylwch y gallai ceisiadau y penderfynir eu bod yn hwyr gynyddu'r posibilrwydd o beidio â chael lle yn eich dewis Ysgol(ion). Mae hyn oherwydd y bydd pob cais a gyflwynir gyda'r dystiolaeth angenrheidiol cyn y dyddiad cau yn cael blaenoriaeth dros y rhai a dderbynnir ar ôl y dyddiad cau.

**Sut bydd penderfyniad yn cael ei wneud ar fy nghais?**

Mae'r Awdurdod Lleol wedi ymrwymo i weithio gydag Ysgolion a rhieni i gydymffurfio â'ch dewisiadau, lle bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae adegau pan na allwn fodloni dymuniadau rhieni.

Fe'ch cynghorir yn gryf i gynnwys mwy nag un dewis ar eich ffurflen gais, byddwn wedyn yn gallu ystyried y dewisiadau eraill rhain pe na byddech yn llwyddo i gael lle yn eich dewis Ysgol. Bydd eich dewisiadau yn cael eu hystyried yn gyfartal yn unol â meini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod Lleol a bydd yr ysgol a ffafrir yn cael ei chynnig os gellir bodloni mwy nag un dewis – ni fyddwch dan anfantais mewn unrhyw ffordd os byddwch yn cynnwys mwy nag un dewis yn eich cais. ond gallech fod dan anfantais os na wnewch hynny.

Os bydd yr Awdurdod Lleol yn derbyn mwy o geisiadau nag sydd o leoedd ar gael yn yr ysgol a ffafrir, bydd y meini prawf isod yn cael eu defnyddio i ddewis yr ymgeiswyr llwyddiannus:

Plant sydd â Datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (gofyniad statudol ar gyfer derbyn)
1. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n derbyn gofal neu blant a oedd yn arfer derbyn gofal hy plant sydd yng ngofal awdurdod lleol neu sydd wedi bod yng ngofal awdurdod lleol yn flaenorol, dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 2-8 isod.
2. Rhoddir blaenoriaeth i blant ag amgylchiadau meddygol eithriadol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 3-8 isod
3. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw yn nalgylch yr ysgol ddewisol sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol yn yr ysgol dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 4-8 isod.
4. Bydd plant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol ddewisol, ond sydd â brodyr a chwiorydd perthnasol a fydd yn parhau i fynychu'r ysgol a ffafrir oherwydd eu bod wedi bod yn aflwyddiannus yn eu cais am le yn eu hysgol ddalgylch, yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 5-8 isod
5. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu mewn i ddalgylch yr ysgol a ffafrir dros y rhai sy'n bodloni pwyntiau 6-8 isod
6. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol a ffafrir, sydd â brawd neu chwaer berthnasol (a fydd yn mynychu'r ysgol a ffafrir ar adeg y derbyniad) nad ydynt yn bodloni meini prawf pwyntiau 3 a 4 uchod, dros y rheiny sy'n bodloni pwyntiau 7-8 isod
7. Bydd plant sydd ar y gofrestr ar hyn o bryd mewn ysgol gynradd sydd wedi'i dynodi'n ysgol fwydo ar gyfer yr ysgol uwchradd a ffafrir yn cael blaenoriaeth dros y rhai sy'n bodloni pwynt 8 isod.
8. Ar ôl cymhwyso'r categorïau uchod, neu os bydd yr ysgol yn parhau i wynebu gordanysgrifio yn unrhyw un o'r categorïau uchod, bydd blaenoriaeth yn seiliedig ar agosrwydd at yr ysgol a ffafrir, wedi'i mesur gan ddefnyddio'r llwybr cerdded diogel byrraf.

Cymerwch amser i astudio Llyfryn Dechrau Ysgol 2025/26 i gael gwybodaeth fanylach am feini prawf gordanysgrifio yr Awdurdod Lleol.

**Mae gan fy mhlentyn gyflwr meddygol – a fydd yn cael blaenoriaeth ar gyfer lle mewn ysgol?**
Bydd angen i rieni sy'n dymuno i amgylchiadau meddygol eu plentyn gael eu hystyried fel blaenoriaeth ar gyfer lle mewn Ysgol, yn unol â phwynt 2 meini prawf gordanysgrifio'r Awdurdod uchod, gyflwyno tystiolaeth addas ar adeg y cais er mwyn i'r amgylchiadau hyn gael eu hystyried gan yr Awdurdod yn ystod y broses ddyrannu gychwynnol. Gall tystiolaeth addas gynnwys adroddiad ymgynghorydd meddygol.

Ni fydd modd i'r Awdurdod ystyried unrhyw amgylchiadau meddygol pe bai'r dystiolaeth ategol yn dod i law ar ôl y 1af Mawrth 2025, hynny yw, pan fydd yr holl leoedd sydd ar gael wedi'u dyrannu o bosibl.

**Mae gan fy mhlentyn frawd neu chwaer yn yr ysgol yn barod – a fydd yn derbyn lle yn yr ysgol hon yn fel mater o drefn?**

Bydd brodyr a chwiorydd, boed yn frodyr a chwiorydd cyflawn, hanner brawd neu chwaer, llys chwaer neu lys frawd neu frawd neu chwaer maeth, yn cael eu hystyried yn berthnasol os byddant yn byw gyda'i gilydd yn yr un cyfeiriad ac os bydd plentyn hŷn yn dal i fod wedi'i gofrestru yn yr ysgol pan fydd yr un iau yn gymwys i fynychu.

Ni all yr Awdurdod Lleol warantu lle yn eich dewis ysgol ar y sail bod ganddynt frawd neu chwaer yn mynychu'r ysgol ddewisol eisoes. Fodd bynnag, mae brodyr a chwiorydd yn rhan o'r meini prawf gordanysgrifio fel y gwelir uchod.

**At hyn, sylwch bod y sefyllfa o ran brawd neu chwaer sy'n byw y tu allan i ddalgylch yr ysgol yn is yn y meini prawf gordanysgrifio na brawd neu chwaer sy'n byw yn nalgylch yr ysgol (gweler pwyntiau 3 a 4 o'r meini prawf gordanysgrifio uchod). Os ydych yn byw y tu allan i'r dalgylch ac yn parhau i gyflwyno cais, sylwch y gallai eich plentyn iau fod mewn perygl o beidio â chael lle yn yr ysgol sydd y tu allan i'r dalgylch er bod ganddynt frawd neu chwaer sy'n mynychu'r ysgol honno.**

**A fydd fy mhlentyn yn cael lle yn fy Ysgol ddalgylch?**

Er bod byw yn nalgylch eich dewis Ysgol yn elfen o'r meini prawf gordanysgrifio, nid yw'n gwarantu lle ar y sail hon. Gallwch edrych pa ysgol yw eich ysgol dalgylch drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk

**Cludiant i'r ysgol**
Mae'r cyngor yn cynnig newidiadau i'r Polisi Cludiant Teithwyr yn unol â chanllawiau statudol Llywodraeth Cymru o 2 filltir ar gyfer ysgol gynradd a 3 milltir ar gyfer ysgolion uwchradd. Cofiwch y gallai hyn effeithio ar eich cymhwyster i gael cludiant o'r cartref i'r ysgol.

**Gwybodaeth Bwysig**

Mae'n bwysig deall, os ydych yn dymuno gwneud cais am ysgol nad yw yn eich dalgylch a'ch bod yn llwyddiannus, petaech yn dymuno gwneud cais wedyn i frawd neu chwaer arall fynychu'r un ysgol, mae'r meini prawf ar gyfer brodyr a chwiorydd sy'n byw y tu allan i'r dalgylch yn is o ran y meini prawf gordanysgrifio

**Cyfrifoldeb rhieni yw sicrhau bod ceisiadau ar-lein neu ffurflenni ysgolion dewisol yn cael eu derbyn erbyn y dyddiad cau, sef 13eg Tachwedd 2024 (am 5pm). Os ydych wedi llenwi ffurflen bapur, rydym yn argymell yn gryf eich bod yn anfon y ffurflen yn y fath fodd fel bod gennych brawf bod y Cyngor wedi'i derbyn, er enghraifft trwy ddosbarthiad arbennig y Post Brenhinol neu drwy ddosbarthu â llaw i'n swyddfeydd.**

**Nid yw'r Awdurdod Lleol yn cymryd unrhyw gyfrifoldeb am ffurflenni sy'n cael eu colli yn y post neu sy’n cael eu dychwelyd oherwydd diffyg o ran cost postio.**